



*Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i ddiffyg yn O.S. 2022/1066 (Cy. 224) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

*This Statutory Instrument has been made in consequence of a defect in S.I. 2022/1066 (W. 224) and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument*

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2022 Rhif 1188 (Cy. 244)**

**2022 No. 1188 (W. 244)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**SOCIAL CARE, WALES**

**Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal  
Dydd (Anghymhwysu) (Rhif 2)  
(Cymru) 2022**

**The Child Minding and Day Care  
(Disqualification) (No. 2) (Wales)  
Regulations 2022**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwysu) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/1066) (Cy. 224) ("Rheoliadau 2022"). Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r categorïau o bersonau sydd wedi eu hanghymhwysu rhag cofrestru yng Nghymru yn warchodwyr plant neu'n ddarparwyr gofal dydd o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1) ("y Mesur").

Ni chaiff personau sydd wedi eu hanghymhwysu o dan y Rheoliadau hyn weithredu fel gwarchodwyr plant yng Nghymru, darparu gofal dydd nac ymwneud â rheoli unrhyw ddarpariaeth gofal dydd. Ni chânt ychwaith fod wedi eu cyflogi mewn cysylltiad â gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn ynghyd ag Atodlen 1 iddynt yn nodi'r gorchmynion a'r penderfyniadau ynglŷn â gofalu am blant y mae person wedi ei anghymhwysu rhag cofrestru mewn cysylltiad â hwy a goruchwyllo'r plant hynny. Mae rheoliad 3, ynghyd ag Atodlenni 2 a 3, hefyd yn nodi categorïau o droseddau yn erbyn plant neu oedolion y mae person wedi ei anghymhwysu rhag cofrestru mewn cysylltiad

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations replace the Child Minding and Day Care (Disqualification) (Wales) Regulations 2022 (S.I. 2022/1066) (W. 224) ("the 2022 Regulations"). These Regulations set out the categories of persons who are disqualified from registration in Wales as child minders or providers of day care under Part 2 of the Children and Families (Wales) Measure 2010 (nawm 1) ("the Measure").

Persons disqualified under these Regulations must not act as child minders in Wales, provide day care or be concerned in the management of any provision of day care. Nor must they be employed in connection with the provision of child minding or day care.

Regulation 3 together with Schedule 1 to these Regulations sets out orders and determinations for the care and supervision of children in connection with which a person is disqualified from registration. Regulation 3, together with Schedules 2 and 3, also sets out categories of offences against or involving children or adults in respect of which a person is disqualified from registration. Regulation 3(10)

â hwy, neu droseddau sy'n ymwneud â'r plant hynny neu'r oedolion hynny. Mae rheoliad 3(10) yn egluro nad yw anghymhwyso yn gymwys i bersonau sydd wedi bod yn destun gorchmynion gofal neu oruchwylio eu hunain neu i ofalwyr maeth neu rieni mabwysiadol y mae plentyn sy'n destun neu a oedd yn destun gorchymyn gofal neu oruchwylio yn byw gyda hwy, oni wnaed y gorchymyn o ganlyniad i ofal y ceisydd hwnnw am y plentyn.

Mae rheoliad 4 yn nodi'r troseddau a gyflawnir dramor sy'n gymaradwy â'r troseddau a nodir yn y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 5 yn darparu bod personau sydd wedi eu cynnwys ar y rhestr a gedwir o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 (p. 14) wedi eu hanghymhwyso rhag cofrestru.

Mae rheoliad 6(1) a (2) yn darparu bod personau y mae cyfarwyddyd wedi ei wneud mewn cysylltiad â hwy o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) (a elwir yn Rhestr 99) wedi eu hanghymhwyso rhag cofrestru.

Mae rheoliad 7 yn nodi bod personau sydd wedi eu gwahardd rhag gweithgarwch rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant o dan adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47) wedi eu hanghymhwyso rhag cofrestru.

Mae rheoliad 8 yn darparu bod person wedi ei anghymhwyso rhag cofrestru yn warchodwr plant os yw'r person hwnnw yn byw gyda pherson arall sydd wedi ei anghymhwyso o dan y Rheoliadau hyn, neu'n byw ar aelwyd y mae person o'r fath wedi ei gyflogi ynddi ac yn gweithredu neu'n bwriadu gweithredu fel gwarchodwr plant mewn mangre ddomestig sydd hefyd yn gartref iddo.

Mae rheoliad 9 yn darparu ar gyfer hepgor yr anghymhwyso o dan amgylchiadau penodol. Pan fo cydsyniad Gweinidogion Cymru, neu awdurdod lleol cyn 1 Ebrill 2002, wedi ei roi, nid ystyrir bod person wedi ei anghymhwyso.

Mae rheoliad 9(2) yn nodi amgylchiadau pan na fo'r broses hepgor yn gymwys. Mae hyn pan fo unigolyn wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn, pan fo'r drosedd ei hun wedi ei diddymu ers hynny a phan fo'r llys sy'n dedfrydu wedi gorchymyn bod yr unigolyn yn cael ei anghymhwyso rhag gweithio gyda phlant.

Mae rheoliad 10 yn nodi hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru o ran pa un ai i roi cydsyniad i hepgor anghymhwyso o dan reoliad 9.

clarifies that disqualification does not apply to persons who have been the subject of care or supervision orders themselves or to foster carers or adoptive parents, with whom a child who is or was subject of a care or supervision order, lives, unless the order was made as a result of that applicant's care of the child.

Regulation 4 sets out the offences committed overseas which are comparable to the offences set out in these Regulations.

Regulation 5 provides that persons included on the list kept under section 1 of the Protection of Children Act 1999 (c. 14) are disqualified from registration.

Regulation 6(1) and (2) provides that persons in respect of whom a direction has been made under section 142 of the Education Act 2002 (c. 32) (known as List 99) are disqualified from registration.

Regulation 7 sets out that persons barred from regulated activity relating to children under section 3(2) of the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006 (c. 47) are disqualified from registration.

Regulation 8 provides that a person is disqualified from registration as a childminder if that person lives with another person who is disqualified under these Regulations, or lives in a household in which such a person is employed and acts or intends to act as a childminder on domestic premises which is also their home.

Regulation 9 provides for a waiver of the disqualification in certain circumstances. Where the consent of the Welsh Ministers, or a local authority prior to 1 April 2002, has been given a person is not to be regarded as disqualified.

Regulation 9(2) sets out circumstances where the waiver process does not apply. This is where an individual has committed an offence against a child, where the offence itself has since been repealed and where the sentencing court ordered that the individual is disqualified from working with children.

Regulation 10 sets out a right of appeal to the First-tier Tribunal in relation to any determination made by the Welsh Ministers as to whether to give consent to waive disqualification under regulation 9.

Mae rheoliad 11 yn darparu bod gan berson sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur ddyletswydd i ddatgelu gwybodaeth i Weinidogion Cymru am fanylion unrhyw orchymyn, penderfyniad, euogfarn neu sail arall dros anghymhwysio rhag cofrestru o dan y Rheoliadau hyn. Mae'r rhwymedigaeth honno yn gymwys i wybodaeth sy'n ymwneud â'r person cofrestredig (ac i unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â'r person cofrestredig neu sydd wedi ei gyflogi ar yr aelwyd honno lle y mae'r person cofrestredig yn warchodwr plant). Mae methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd hon yn drosedd.

Mae rheoliad 12 yn dirymu Rheoliadau 2022 ac yn darparu ar gyfer diwygiad canlyniadol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru).

Regulation 11 provides that a person registered under Part 2 of the Measure has a duty to disclose information to the Welsh Ministers about the details of any order, determination, conviction or other ground for disqualification from registration under these Regulations. That obligation applies to information relating to the registered person (and to any person living in the same household as the registered person or employed in that household where the registered person is a child minder). Failure to comply with this duty is a criminal offence.

Regulation 12 revokes the 2022 Regulations and provides for a consequential amendment.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on [www.gov.wales](http://www.gov.wales).

*Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i ddiffyg yn O.S. 2022/1066 (Cy. 224) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

*This Statutory Instrument has been made in consequence of a defect in S.I. 2022/1066 (W. 224) and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2022 Rhif 1188 (Cy. 244)**

**2022 No. 1188 (W. 244)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**SOCIAL CARE, WALES**

**Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal  
Dydd (Anghymhwysu) (Rhif 2)  
(Cymru) 2022**

**The Child Minding and Day Care  
(Disqualification) (No. 2) (Wales)  
Regulations 2022**

*Gwnaed* 14 Tachwedd 2022

*Made* 14 November 2022

*Gosodwyd* gerbron *Senedd*  
*Cymru* 15 Tachwedd 2022

*Laid before Senedd Cymru* 15 November 2022

*Yn dod i rym* yn unol â rheoliad 1(2)

*Coming into force in accordance with*  
*regulation 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 30(1), (3) a (4), 37(2)(a), 38(2), (3), (4) a (5) a 74(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 30(1), (3) and (4), 37(2)(a), 38(2), (3), (4) and (5) and 74(2) of the Children and Families (Wales) Measure 2010(1), make the following Regulations:

**Enwi a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwysu) (Rhif 2) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Rhagfyr 2022 yn union ar ôl Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwysu) (Cymru) 2022(2).

**Title and commencement**

1.—(1) The title of these Regulations is the Child Minding and Day Care (Disqualification) (No. 2) (Wales) Regulations 2022.

(2) These Regulations come into force on 6 December 2022 immediately after the Child Minding and Day Care (Disqualification) (Wales) Regulations 2022(2).

---

(1) 2010 mccc 1. Gweler adran 71 am y diffiniadau o "rhagnodi" a "rheoliadau".

(2) O.S. 2022/1066 (Cy. 224).

---

(1) 2010 nawm 1. See section 71 for the definitions of "prescribed" and "regulations".

(2) S.I. 2022/1066 (W. 224).

## Dehongli

### 2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “cyfarwyddyd” (“*direction*”) yw cyfarwyddyd a wneir, neu sy’n cael effaith fel pe bai wedi ei wneud, o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002(1) ar y sail a nodir yn is-adran (4)(a), (b) neu (d) o’r adran honno(2);

ystyr “Deddf 1989” (“*the 1989 Act*”) yw Deddf Plant 1989(3);

ystyr “Deddf 2000” (“*the 2000 Act*”) yw Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000(4);

ystyr “gorchymyn perthnasol” (“*relevant order*”) yw—

(a) gorchymyn a wneir gan Lys y Goron, y Llys Apêl, y Llys Milwrol neu Lys Apêl y Llys Milwrol bod yr unigolyn o dan sylw yn cael ei dderbyn i’r ysbty, neu

(b) gorchymyn gwarcheidiaeth(5);

mae i “mangre ddomestig” (“*domestic premises*”) yr ystyr a roddir gan adran 19(6) o’r Mesur;

ystyr “y Mesur” (“*the Measure*”) yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;

ystyr “wedi ei anghymhwysu” (“*disqualified*”) yw wedi ei anghymhwysu rhag cofrestru yn warchodwr plant neu’n ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 o’r Mesur.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae person (“P”) wedi ei “gael wedi cyflawni” trosedd—

(a) os yw P wedi ei euogfarnu o drosedd;

(b) os yw P wedi ei ddyfarnu’n ddiuog o drosedd oherwydd gorffwylledd;

(c) os cafwyd bod P o dan anabledd a’i fod wedi gwneud y weithred y mae wedi ei gyhuddo ohoni mewn cysylltiad â throsedd o’r fath;

(d) os yw P, ar neu ar ôl 6 Ebrill 2007, wedi cael rhybuddiad gan swyddog heddlu mewn cysylltiad â throsedd;

## Interpretation

### 2.—(1) In these Regulations—

“the 1989 Act” (“*Deddf 1989*”) means the Children Act 1989(1);

“the 2000 Act” (“*Deddf 2000*”) means the Criminal Justice and Court Services Act 2000(2);

“direction” (“*cyfarwyddyd*”) means a direction made, or which has effect as if made, under section 142 of the Education Act 2002(3) on the grounds set out in subsection (4)(a), (b) or (d) of that section(4);

“disqualified” (“*wedi ei anghymhwysu*”) means disqualified from registration as a child minder or provider of day care under Part 2 of the Measure;

“domestic premises” (“*mangre ddomestig*”) has the meaning given by section 19(6) of the Measure;

“the Measure” (“*y Mesur*”) means the Children and Families (Wales) Measure 2010;

“relevant order” (“*gorchymyn perthnasol*”) means—

(a) an order made by the Crown Court, the Court of Appeal, the Court Martial or the Court Martial Appeal Court that the individual in question be admitted to hospital, or

(b) a guardianship order(5).

(2) In these Regulations, a person (“P”) has been “found to have committed” an offence if P has been—

(a) convicted of an offence;

(b) found not guilty of an offence by reason of insanity;

(c) found to be under a disability and to have done the act charged against them in respect of such an offence;

(d) on or after 6 April 2007, given a caution in respect of an offence by a police officer;

(1) 2002 p. 32.

(2) Diddymwyd adran 142 gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47) ac Atodlen 10 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a darpariaethau trosiannol a bennir yn erthyglau 4(2) a (3), a 7 o O.S. 2009/2611.

(3) 1989 p. 41.

(4) 2000 p. 43.

(5) Fel y diffinnir “guardianship order” yn adran 30(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaeth Llysoedd 2000 (p. 43) (“Deddf 2000”). Diddymwyd adran 30 gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac Atodlen 10 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn erthygl 5 o O.S. 2012/2231.

(1) 1989 c. 41.

(2) 2000 c. 43.

(3) 2002 c. 32.

(4) Section 142 was repealed by section 63(2) of, and Schedule 10 to, the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006 (c. 47), subject to savings and transitional provisions specified in articles 4(2) and (3), and 7 of S.I. 2009/2611.

(5) As defined in section 30(1) of the Criminal Justice and Court Services Act 2000 Act (c. 43) (“the 2000 Act”). Section 30 was repealed by section 63(2) of, and Schedule 10 to, the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006, subject to savings specified in article 5 of S.I. 2012/2231.

- (e) os yw P, ar neu ar ôl 8 Ebrill 2013, wedi cael rhybuddiad ieuencid gan swyddog heddlu mewn cysylltiad â throedd y mae P wedi ei chyfaddef<sup>(1)</sup>.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae P wedi ei gael wedi cyflawni trosedd sy'n "gysylltiedig â" throedd os yw P wedi ei gael wedi cyflawni trosedd fel a ganlyn—

- (a) ceisio cyflawni'r drosedd honno, neu gynllwynio neu ysgogi i'w chyflawni, neu  
(b) cynorthwyo i gyflawni'r drosedd honno, neu annog, cwnsela neu beri ei chyflawni.

### Gofalu am blant a throeddau yn erbyn plant neu oedolion

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (9), (10) ac (11) a rheoliad 9, mae person ("P") wedi ei anghymhwyso os yw unrhyw un neu ragor o baragraffau (2) i (8) yn gymwys.

(2) Mae unrhyw un neu ragor o'r gorchmynion neu'r penderfyniadau eraill a bennir yn Atodlen 1 wedi eu gwneud—

- (a) mewn cysylltiad â P,  
(b) sy'n atal P rhag cael ei gofrestru mewn perthynas ag unrhyw gyfleuster y mae plant yn derbyn gofal ynddo neu rhag bod yn rhan o reoli unrhyw gyfleuster o'r fath neu rhag ymwneud fel arall â darparu unrhyw gyfleuster o'r fath, neu  
(c) mewn cysylltiad â phlentyn sydd wedi bod yng ngofal P.

(3) Mae gorchymyn wedi ei wneud mewn cysylltiad â P o dan adran 104 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003<sup>(2)</sup> er bod y drosedd wedi ei diddymu yng Nghymru a Lloegr.

(4) Mae P wedi ei gael wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn o fewn ystyr "offence against a child" yn adran 26(1) o Ddeddf 2000<sup>(3)</sup> er bod y drosedd wedi ei diddymu.

- (e) on or after 8 April 2013, given a youth caution by a police officer, in respect of an offence which P has admitted<sup>(1)</sup>.

(3) In these Regulations, P has been found to have committed an offence that is "related to" an offence if P has been found to have committed an offence of—

- (a) attempting, conspiring or incitement to commit that offence, or  
(b) aiding, abetting, counselling or procuring the commission of that offence.

### Care of children and offences against children or adults

3.—(1) Subject to paragraphs (9), (10) and (11) and regulation 9, a person ("P") is disqualified if any of paragraphs (2) to (8) apply.

(2) Any of the orders or other determinations specified in Schedule 1 has been made—

- (a) with respect to P,  
(b) which prevents P from being registered in relation to any facility in which children are looked after or from being involved in the management of or otherwise concerned with the provision of any such facility, or  
(c) with respect to a child who has been in P's care.

(3) An order has been made with respect to P under section 104 of the Sexual Offences Act 2003<sup>(2)</sup> despite the offence having been repealed in England and Wales.

(4) P has been found to have committed an offence against a child within the meaning of section 26(1) of the 2000 Act<sup>(3)</sup> despite the offence having been repealed.

(1) Mewnosodwyd adran 66ZA o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37) mewn perthynas â rhybuddiadau ieuencid gan adran 135 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012 (p. 10) a daeth i rym ar 8 Ebrill 2013.

(2) 2003 p. 42. Diddymwyd adran 104 o ran Cymru a Lloegr gan adran 113(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 (p. 12) ("Deddf 2014") a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 5 iddi. Mae adran 104 yn parhau mewn grym yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban ond mae'n ddarostyngedig i'w diddymu yn yr Alban gan adran 39(1)(a) o Ddeddf Ymddygiad Camdriniol a Niwed Rhywiol (Yr Alban) 2016 (dsa 22) ("Deddf 2016"). Am ddarpariaethau trosiannol ac arbedion gweler adran 114(1), (2), a (4) i (6) o Ddeddf 2014 ac adran 40 o Ddeddf 2016.

(3) Diddymwyd adran 26 gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac Atodlen 10 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn erthygl 5 o O.S. 2012/2231.

(1) Section 66ZA of the Crime and Disorder Act 1998 (c. 37) in relation to youth cautions was inserted by section 135 of the Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012 (c. 10) and came into force on 8 April 2013.

(2) 2003 c. 42. Section 104 was repealed in relation to England and Wales by section 113(1) of, and paragraphs 1 and 3 of Schedule 5 to, the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014 (c. 12) ("the 2014 Act"). Section 104 remains in force in Northern Ireland and Scotland but is subject to repeal in Scotland by section 39(1)(a) of the Abusive Behaviour and Sexual Harm (Scotland) Act 2016 (asp 22) ("the 2016 Act"). For transitional provisions and savings see section 114(1), (2), and (4) to (6) of the 2014 Act and section 40 of the 2016 Act.

(3) Section 26 was repealed by section 63(2) of, and Schedule 10 to, the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006, subject to savings specified in article 5 of S.I. 2012/2231.

(5) Mae P—

(a) wedi ei gael wedi cyflawni unrhyw drosedd a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 2 neu drosedd sy'n gysylltiedig â throedd o'r fath, neu

(b) yn dod o fewn paragraff 2 o'r Atodlen honno, er gwaethaf y ffaith bod y troseddau statudol yn yr Atodlen honno wedi eu diddymu.

(6) Mae P wedi ei gael wedi cyflawni unrhyw drosedd ac eithrio trosedd y cyfeirir ati ym mharagraff (4) neu (5) sy'n ymwneud ag anaf corfforol i blentyn neu farwolaeth plentyn.

(7) Mae P wedi ei gael wedi cyflawni unrhyw drosedd a bennir yn Atodlen 3 neu drosedd sy'n gysylltiedig â throedd o'r fath.

(8) Mae P—

(a) wedi ei gael wedi cyflawni unrhyw drosedd, a gyflawnir yn erbyn person 18 oed neu'n hŷn, a grybwyllir ym mharagraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf 2000(1) neu drosedd sy'n gysylltiedig â throedd o'r fath, neu

(b) wedi ei gyhuddo o unrhyw drosedd, a gyflawnir yn erbyn person 18 oed neu'n hŷn, a grybwyllir ym mharagraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf 2000 neu drosedd sy'n gysylltiedig â throedd o'r fath y mae uwchlys wedi gosod gorchymyn perthnasol mewn cysylltiad â hi,

er gwaethaf y ffaith bod y troseddau statudol yn yr Atodlen honno wedi eu diddymu.

(9) Nid yw P wedi ei anghymhwyso o dan baragraffau (1) i (8) mewn cysylltiad ag unrhyw orchymyn, penderfyniad neu drosedd—

(a) os yw P wedi apelio'n llwyddiannus yn erbyn y gorchymyn, y penderfyniad neu'r euogfarn,

(b) os yw rhybuddiad mewn cysylltiad â'r drosedd honno wedi ei dynnu'n ôl neu ei osod o'r neilltu,

(c) os yw cyfarwyddyd sy'n seiliedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar y drosedd wedi ei ddirymu, neu

(d) os yw gorchymyn wedi ei wneud o dan adran 12 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000(2) neu adran 79 neu 80 o'r

(5) P—

(a) has been found to have committed any offence specified in paragraph 1 of Schedule 2 or an offence that is related to such an offence, or

(b) falls within paragraph 2 of that Schedule, despite the fact that the statutory offences in that Schedule have been repealed.

(6) P has been found to have committed any offence other than an offence referred to in paragraph (4) or (5) involving bodily injury to, or death of, a child.

(7) P has been found to have committed any offence specified in Schedule 3 or an offence that is related to such an offence.

(8) P has been—

(a) found to have committed any offence, committed against a person aged 18 or over, mentioned in paragraph 2 of Schedule 4 to the 2000 Act(1) or an offence that is related to such an offence, or

(b) charged with any offence, committed against a person aged 18 or over, mentioned in paragraph 2 of Schedule 4 to the 2000 Act or an offence that is related to such an offence in respect of which a relevant order has been imposed by a senior court,

despite the fact that the statutory offences in that Schedule have been repealed.

(9) P is not disqualified under paragraphs (1) to (8) in respect of any order, determination or offence if—

(a) P has successfully appealed against the order, determination or conviction,

(b) a caution in respect of that offence has been withdrawn or set aside,

(c) a direction based wholly or in part on the offence has been revoked, or

(d) an order has been made under section 12 of the Powers of Criminal Courts (Sentencing) Act 2000(2) or section 79 or 80 of the

(1) Diddymwyd Atodlen 4 gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac Atodlen 10 iddi.

(2) 2000 p. 6. Diddymwyd adran 12 gan adran 413 o Ddeddf Dedfrydu 2020 (p. 17) ac Atodlen 28 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a darpariaethau trosiannol a bennir yn adrannau 412 a 416(7) a pharagraffau 1, 2, 4 a 5 o Atodlen 27.

(1) Schedule 4 was repealed by section 63(2) of, and Schedule 10 to, the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006.

(2) 2000 c. 6. Section 12 was repealed by paragraph 1 of Schedule 28 to the Sentencing Act 2020 (c. 17), subject to savings and transitional provisions specified in sections 412 and 416(7) and paragraphs 1, 2, 4 and 5 of Schedule 27.

Cod Dedfrydu(1) sy'n rhyddhau P yn ddiamod neu'n amodol mewn cysylltiad â'r drosedd honno.

(10) Nid yw P wedi ei anghymhwysu yn rhinwedd paragraff (2)—

- (a) os yw gorchymyn wedi ei wneud o dan Ddeddf 1989 y lleolwyd P yng ngofal awdurdod lleol dynodedig neu gorff tebyg neu o dan oruchwyliaeth awdurdod neu gorff o'r fath odano, oni bai bod gorchymyn hefyd wedi ei wneud o ganlyniad i ofal P am ei blentyn ei hun, neu
- (b) pan fo P yn ofalwr maeth neu'n rhiant mabwysiadol i blentyn, a bo'r plentyn hwnnw yn cael neu wedi cael ei wneud yn destun gorchymyn gofal neu oruchwyllo o dan Ddeddf 1989, oni bai bod y gorchymyn wedi ei wneud o ganlyniad i ofal P am y plentyn hwnnw.

(11) Nid yw P wedi ei anghymhwysu rhag cofrestru yn rhinwedd paragraff (2) mewn cysylltiad â gwrthod neu ganslo unrhyw gofrestrriad o dan y darpariaethau a nodir ym mharagraff 23(c) o Atodlen 1—

- (a) os yw'r gwrthod neu'r canslo mewn cysylltiad â chofrestru ag asiantaeth gwarchod plant, neu
- (b) os yr unig reswm dros wrthod neu ganslo'r cofrestrriad oedd methu â thalu unrhyw ffi a ragnodir o dan Ran 3 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(2).

## Troseddau tramor

4.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 9, mae person ("P") wedi ei anghymhwysu os yw P wedi ei gael wedi gwneud gweithred—

- (a) a oedd yn drosedd o dan y gyfraith a oedd mewn grym mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a
- (b) a fyddai'n drosedd a'i gwnâi'n ofynnol anghymhwysu person rhag cofrestru o dan y Rheoliadau hyn pe bai wedi ei gwneud mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig.

(2) Ym mharagraff (1), mae P "wedi ei gael wedi gwneud gweithred a oedd yn drosedd" os yw'r canlynol wedi digwydd o dan y gyfraith a oedd mewn grym mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig—

- (a) mae P wedi ei euogfarnu o drosedd (pa un a yw P wedi ei gosbi amdani ai peidio),

Sentencing Code(1) discharging P absolutely or conditionally in respect of that offence.

(10) P is not disqualified by virtue of paragraph (2)—

- (a) if an order is made under the 1989 Act under which P was placed in the care or under the supervision of a designated local authority or similar body, unless an order has also been made as a result of P's care of their own child, or
- (b) where P is a foster carer or adoptive parent of a child, and that child is or was made the subject of a care or supervision order under the 1989 Act, unless the order is made as a result of P's care of that child.

(11) P is not disqualified from registration by virtue of paragraph (2) in respect of any refusal or cancellation of registration under the provisions set out in paragraph 23(c) of Schedule 1 if—

- (a) the refusal or cancellation is in respect of registration with a child-minder agency, or
- (b) the sole reason for the refusal or cancellation of registration was the failure to pay any fee prescribed under Part 3 of the Children and Young Persons Act (Northern Ireland) 1968(2).

## Overseas offences

4.—(1) Subject to regulation 9, a person ("P") is disqualified if P has been found to have done an act which—

- (a) constituted an offence under the law in force in a country outside the United Kingdom, and
- (b) would constitute an offence requiring disqualification from registration under these Regulations if it had been done in any part of the United Kingdom.

(2) In paragraph (1), P has been "found to have done an act which constituted an offence" if, under the law in force in a country outside the United Kingdom—

- (a) P has been convicted of an offence (whether or not P has been punished for it),

(1) Mae adran 1(1) o Ddeddf Dedfrydu 2020 yn darparu bod Rhannau 2 i 13 o'r Ddeddf honno gyda'i gilydd yn ffurfio cod o'r enw'r "Sentencing Code".

(2) 1968 p. 34 (G.I.). Diddymwyd adran 127 gan erthygl 185(2) o O.S. 1995/755 (G.I. 2) ac Atodlen 10 iddo.

(1) Section 1(1) of the Sentencing Act 2020 provides that Parts 2 to 13 of that Act together make up a code called the "Sentencing Code".

(2) 1968 c. 34 (N.I.). Section 127 was repealed by article 185(2) of, and Schedule 10 to, S.I. 1995/755 (N.I. 2).



- (b) mae P wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd,
- (c) mae llys sy'n arfer awdurdodaeth o dan y gyfraith honno wedi gwneud mewn cysylltiad â throsedd ganfyddiad sy'n gyfwerth â chanfyddiad bod P yn ddiuog oherwydd gorffwylledd, neu
- (d) mae llys o'r fath wedi gwneud mewn cysylltiad â throsedd ganfyddiad sy'n gyfwerth â chanfyddiad bod P o dan anabledd ac iddo wneud y weithred y cyhuddwyd P ohoni.

(3) Nid yw P wedi ei anghymhwyso o dan baragraff (1) mewn cysylltiad ag unrhyw ganfyddiad os yw'r canfyddiad hwnnw, o dan y gyfraith sydd mewn grym yn y wlad o dan sylw, wedi ei wrthdroi.

(4) Mae gweithred sydd i'w chosbi o dan y gyfraith sydd mewn grym mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn drosedd o dan y gyfraith honno at ddibenion y rheoliad hwn ym mha ffordd bynnag y'i disgrifir yn y gyfraith honno.

### Rhestr y Ddeddf Amddiffyn Plant

5. Mae person sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr a gedwir o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999(1) (rhestr o'r rheini y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant) wedi ei anghymhwyso.

### Cyfarwyddyd mewn perthynas â chyflogi athrawon etc.

6.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 9, mae person ("P") wedi ei anghymhwyso os yw unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn yn y rheoliad hwn yn gymwys i P.

(2) Mae P yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd.

(3) Mae enw P ar unrhyw restr a gedwir at ddibenion rheoliadau a wneir o dan erthygl 70(2)(e) neu 88A(1) a (2)(b) o Orchymyn Addysg a Llyfrgelloedd (Gogledd Iwerddon) 1986(2).

- (b) P has been cautioned in respect of an offence,
- (c) a court exercising jurisdiction under that law has made in respect of an offence a finding equivalent to a finding that P is not guilty by reason of insanity, or
- (d) such a court has made in respect of an offence a finding equivalent to a finding that P is under a disability and did the act charged against P.

(3) P is not disqualified under paragraph (1) in respect of any finding if, under the law in force in the country concerned, such finding has been reversed.

(4) An act punishable under the law in force in a country outside the United Kingdom constitutes an offence under that law for the purposes of this regulation however it is described in that law.

### Protection of Children Act list

5. A person who is included in the list kept under section 1 of the Protection of Children Act 1999(1) (list of those considered by the Secretary of State unsuitable to work with children) is disqualified.

### Direction in relation to the employment of teachers etc.

6.—(1) Subject to regulation 9, a person ("P") is disqualified if any of the following provisions of this regulation apply to P.

(2) P is subject to a direction.

(3) P's name is on any list kept for the purposes of regulations made under article 70(2)(e) or 88A(1) and (2)(b) of the Education and Libraries (Northern Ireland) Order 1986(2).

(1) 1999 p. 14. Diddymwyd adran 1 o'r Ddeddf hon gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac Atodlen 10 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a darpariaethau trosiannol a bennir yn erthygl 5 o O.S. 2009/2611.  
 (2) O.S. 1986/594 (G.I. 3). Diwygiwyd erthyglau 70(2)(e) ac 88A(2)(b) gan O.S. 2007/1351 (G.I. 11).

(1) 1999 c. 14. Section 1 of this Act was repealed by section 63(2) of and Schedule 10 to the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006, subject to savings and transitional provisions specified in article 5 of S.I. 2009/2611.  
 (2) S.I. 1986/594 (N.I. 3). Articles 70(2)(e) and 88A(2)(b) were amended by S.I. 2007/1351 (N.I. 11).

## **Personau sydd wedi eu gwahardd rhag gweithgarwch rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant**

7. Mae person sydd wedi ei wahardd rhag gweithgarwch rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant o fewn ystyr "barred from regulated activity relating to children" yn adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 wedi ei anghymhwyso.

## **Personau sy'n byw neu'n gweithio mewn mangre lle y mae person sydd wedi ei anghymhwyso yn byw**

8. Yn ddarostyngedig i reoliad 9, mae person ("P") wedi ei anghymhwyso os yw P—

- (a) (i) yn byw ar yr un aelwyd â pherson arall sydd wedi ei anghymhwyso rhag cofrestru, neu
- (ii) yn byw ar aelwyd y mae unrhyw berson o'r fath wedi ei gyflogi ynddi, a
- (b) yn gweithredu neu'n bwriadu gweithredu fel gwarchodwr plant mewn mangre ddomestig a ddefnyddir gan yr aelwyd y mae P yn aelod ohoni.

## **Hepgoriadau**

9.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan fyddai person ("P") wedi ei anghymhwyso yn rhinwedd rheoliad 3, 4, 6(1) a (3), neu 8 ond wedi datgelu i Weinidogion Cymru y ffeithiau a fyddai fel arall yn achosi bod P wedi ei anghymhwyso, a phan fo Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad ysgrifenedig ac na fônt wedi tynnu'r cydsyniad hwnnw yn ôl, yna nid yw'r person, oherwydd y ffeithiau a ddatgelwyd felly, i'w ystyried fel pe bai wedi ei anghymhwyso at ddiben y Rheoliadau hyn.

(2) Mewn perthynas â pherson a fyddai wedi ei anghymhwyso yn rhinwedd rheoliad 3(4), nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo llys wedi gwneud gorchymyn o dan adran 28(4), 29(4) neu 29A(2) o Ddeddf 2000(1).

## **Persons barred from regulated activity relating to children**

7. A person who is barred from regulated activity relating to children within the meaning of section 3(2) of the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006 is disqualified.

## **Persons living or working on premises where a disqualified person lives**

8. Subject to regulation 9, a person ("P") is disqualified if P—

- (a) (i) lives in the same household as another person who is disqualified from registration, or
- (ii) lives in a household in which any such person is employed, and
- (b) acts or intends to act as a childminder on domestic premises used by the household of which P is a member.

## **Waivers**

9.—(1) Subject to paragraph (2), where a person ("P") would be disqualified by virtue of regulation 3, 4, 6(1) and (3), or 8 but has disclosed to the Welsh Ministers the facts which would otherwise cause P to be disqualified, and the Welsh Ministers have given written consent and have not withdrawn that consent, then the person is not, by reason of the facts so disclosed, to be regarded as disqualified for the purpose of these Regulations.

(2) In relation to a person who would be disqualified by virtue of regulation 3(4), this regulation does not apply where a court has made an order under section 28(4), 29(4) or 29A(2) of the 2000 Act(1).

---

(1) Diddymwyd adrannau 28(4), 29(4) a 29A(2) gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac Atodlen 10 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn erthygl 5 o O.S. 2012/2231.

---

(1) Sections 28(4), 29(4) and 29A(2) were repealed by section 63(2) of, and Schedule 10 to, the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006, subject to savings specified in article 5 of S.I. 2012/2231.

(3) Nid yw person wedi ei anghymhwyso os yw'r person, cyn 1 Ebrill 2002—

- (a) wedi datgelu'r ffeithiau a fyddai'n anghymhwyso'r person o dan y Rheoliadau hyn i awdurdod lleol priodol o dan baragraff 2 o Atodlen 9 i Ddeddf 1989(1), a
- (b) wedi cael cydsyniad ysgrifenedig yr awdurdod lleol hwnnw.

## Apelau

**10.** Mae unrhyw benderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru o ran pa un ai i roi cydsyniad i hepgor anghymhwyso o dan reoliad 9(1) yn benderfyniad rhagnodedig at ddibenion adran 37(2)(a) o'r Mesur (apelau).

## Dyletswydd datgelu

**11.**—(1) Rhaid i berson sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur ("person cofrestredig") ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i Weinidogion Cymru—

- (a) manylion unrhyw orchymyn, penderfyniad, euogfarn neu sail arall dros anghymhwyso rhag cofrestru a wneir neu sy'n gymwys mewn perthynas â pherson a restrir ym mharagraff (2) sy'n golygu bod y person hwnnw wedi ei anghymhwyso rhag cofrestru o dan y Rheoliadau hyn;
- (b) y dyddiad pryd y gwnaed y gorchymyn, y penderfyniad neu'r euogfarn neu pryd y cododd unrhyw sail arall dros anghymhwyso rhag cofrestru;
- (c) y corff neu'r llys a wnaeth y gorchymyn, y penderfyniad neu'r euogfarn a'r ddeddfryd, os oes un, a osodwyd;
- (d) mewn perthynas â gorchymyn neu euogfarn, copi o'r gorchymyn perthnasol neu'r gorchymyn llys perthnasol a ardystiwyd gan y corff dyroddi neu'r llys dyroddi.

(2) Y personau y mae rhaid darparu'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) mewn cysylltiad â hwy yw—

- (a) y person cofrestredig, a
- (b) unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â'r person cofrestredig neu sydd wedi ei gyflogi yn yr aelwyd honno.

(3) A person is not disqualified if, prior to 1 April 2002, the person—

- (a) disclosed the facts which would disqualify the person under these Regulations to an appropriate local authority under paragraph 2 of Schedule 9 to the 1989 Act(1), and
- (b) obtained the written consent of that local authority.

## Appeals

**10.** Any determination made by the Welsh Ministers as to whether to give consent to waive disqualification under regulation 9(1) is a prescribed determination for the purposes of section 37(2)(a) of the Measure (appeals).

## Duty of disclosure

**11.**—(1) A person who is registered under Part 2 of the Measure ("registered person") must provide the following information to the Welsh Ministers—

- (a) details of any order, determination, conviction or other ground for disqualification from registration made or applying in relation to a person listed in paragraph (2) which results in that person being disqualified from registration under these Regulations;
- (b) the date when the order, determination or conviction was made or when any other ground for disqualification from registration arose;
- (c) the body or court by which the order, determination or conviction was made and the sentence, if any, imposed;
- (d) in relation to an order or conviction, a copy of the relevant order or court order certified by the issuing body or court.

(2) The persons in respect of whom the information referred to in paragraph (1) must be provided are—

- (a) the registered person, and
- (b) any person who lives in the same household as the registered person or who is employed in that household.

---

(1) Diddymwyd Atodlen 9 o ran Cymru a Lloegr gan adran 79(5) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14) ac o ran yr Alban gan adran 80 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001 (dsa 8) ac Atodlen 4 iddi.

---

(1) Schedule 9 was repealed in relation to England and Wales by section 79(5) of the Care Standards Act 2000 (c. 14) and in relation to Scotland by section 80 of, and Schedule 4 to, the Regulation of Care (Scotland) Act 2001 (asp 8).

(3) Rhaid darparu'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ond beth bynnag o fewn 14 o ddiwrnodau i'r adeg pan ddaeth y person cofrestredig yn ymwybodol o'r wybodaeth honno neu pan ddylai fod wedi dod yn ymwybodol yn rhesymol ohoni pe bai'r person cofrestredig wedi gwneud ymholiadau rhesymol.

(4) Nid yw'r gofyniad ym mharagraff (2)(b) ond yn gymwys mewn cysylltiad ag aelodau'r aelwyd neu'r rheini sydd wedi eu cyflogi yn aelwyd gwarchodwr plant cofrestredig.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ystyried unrhyw honiad bod person cofrestredig wedi methu â bodloni gofynion y rheoliad hwn wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Mesur (gan gynnwys canslo cofrestriad yn unol ag adran 31(1) o'r Mesur).

(6) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â gofynion y rheoliad hwn yn euog o drosedd.

(7) Mae person a ddyfernir yn euog o drosedd o dan y rheoliad hwn yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

### **Dirymu a diwygiad canlyniadol**

**12.**—(1) Mae Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwys) (Cymru) 2022 wedi eu dirymu(1).

(2) Yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010(2), yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "wedi ei anghymhwys", ym mharagraff (a) ar ôl "(Anghymhwys)" mewnosoder "(Rhif 2)".

(3) The information referred to in paragraph (1) must be provided to the Welsh Ministers as soon as reasonably practicable, but in any event within 14 days of the time when the registered person became aware of that information or ought reasonably to have become aware of it if the registered person had made reasonable enquiries.

(4) The requirement in paragraph (2)(b) only applies in respect of household members or those employed in the household of a registered childminder.

(5) Any allegation that a registered person has failed to meet the requirements of this regulation may be taken into account by the Welsh Ministers in the exercise of their functions under Part 2 of the Measure (including cancellation of registration in accordance with section 31(1) of the Measure).

